Christmas Evans, 1766–1838
Gweinidog (B), a phregethwr o fri

Ystyrid Christmas Evans yn un o dri o bregethwyr gorau Cymru eu cyfnod; y ddau arall oedd John Elias o Fôn a'r hen seraff Williams o'r Wern. Nodweddid ei bregethau enwocaf gan arddull ddramatig lle y byddai'n cymeriadu elfennau Cristnogol fel cyfiawnder a gras.

Fel y gellir tybio, nid ar ddydd o haf hirfelyn tesog y ganwyd y gŵr hynod hwn ond ar ddydd Nadolig 1766 yn Esgair Wen, Llandysul, Aberteifi, ar lan afonig y Cerdin. Mab ydoedd i'r crydd Samuel Evans a'i briod Joanna. Bu farw ei dad pan oedd Christmas Evans yn naw oed a bu rhaid iddo fynd yn brentis plwyf gan weithio, mae'n debyg, fel gwas ar fferm ei ewythr James Lewis. Ond daeth tro ar fyd pan aeth i weithio i Gastellhywel, cartref David Davies, gweinidog Presbyteraidd Arminaidd Llwynrhydowen. Pan oedd oddeutu deunaw oed aeth i ysgol David Davies lle dysgodd ddarllen Cymraeg ac ychydig Saesneg a Lladin mewn cyfnod byr, a hefyd dechreuodd bregethu. Dyma'r unig addysg ffurfiol a gafodd. Pregethwr aneffeithiol iawn ydoedd ar y cychwyn gan ei fod yn pregethu pregethau pobl eraill. Tua'r cyfnod hwn y collodd ei lygad de trwy ddamwain; mae'n debyg i was fferm ei daro yn ei lygad â darn o bren. Ymunodd ag eglwys y Bedyddwyr, Aberduar, ac fe'i bedyddiwyd gan y Parch. Timothy Thomas, awdur *Y Wisg Wen Ddisglair*.

Rhyw hanner cant o eglwysi oedd gan y Bedyddwyr yng Nghymru ym 1798 a phrin naw o'r rhain yn y gogledd. Mynychodd Christmas Evans Gymanfa Maesyberllan ym 1789 ac yno fe'i perswadiwyd gan yr hynod J.R. Jones, Ramoth, ac eraill i fynd yn bregethwr teithiol ac i efengylu ar ran y Bedyddwyr yn Llŷn. Fe'i hordeiniwyd yr un flwyddyn ac ymsefydlodd yn Nefyn gan weithio'n galed i gyhoeddi'r Efengyl yn bell ac agos. Priododd yn eglwys Bryncroes â Catherine Jones, 'heb fod gan yr un ohonynt gymaint â stôl deirtroed i ddechrau byw.' Daeth o dan ddylanwad y Diwygiad Methodistaidd a'i frwdfrydedd, ac fe'i cyffyrddwyd yn fawr wrth wrando ar Robert Roberts, Clynnog, yn pregethu. O

hynny ymlaen dechreuodd ddatblygu'n bregethwr grymus ac effeithiol, a bedyddiodd hanner cant o bobl yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn Llŷn.

Ar ddydd Nadolig 1791 symudodd ef a'i wraig i Langefni, Ynys Môn, i gymryd gofal Bedyddwyr yr ynys yn eu pencadlys syml yn Ebeneser, Llangefni, a bu'r ddau yn byw yn y tŷ capel, sef Cildwrn. Yma daeth o dan ddylanwad J.R. Jones, Ramoth, unwaith eto, a hefyd y mudiad Sandemanaidd a geisiodd, ymhlith pethau eraill, wrthweithio teimladrwydd y pwyslais Methodistaidd a effeithiodd ar y Bedyddwyr. Ond cefnodd Christmas Evans ar y syniadaeth hon wedyn, gan gydnabod mai camgymeriad oedd ei choleddu. Cynyddodd yr achos Bedyddiedig ym Môn o dan ei arweiniad, ac er ei bod yn ymddangos yn anghredadwy i ni heddiw dywedai Christmas fod rhwng deg a phymtheng mil o bobl yn mynychu rhai o gymanfaoedd Môn.

Bu farw ei wraig ym 1823, ac ym 1826 symudodd ef i weinidogaethu gyda'r Bedyddwyr yng Nghaerffili lle roedd trigain o aelodau. O fewn dwy flynedd yr oedd yr aelodaeth wedi cynyddu i fwy na dau gant. Yma hefyd priododd â Mary Jones, ei gyn-forwyn o Fôn, yn Eglwysilan. Symudodd i Gaerdydd ym 1828 ond ymddengys nad oedd ei ddull gwerinol yn taro deuddeg â dynion busnes y dref honno, felly symudodd eto ym 1832, y tro hwn i Gaernarfon lle y bu hyd ei farwolaeth. Yn y cyfnod hwn bu'n gefnogol i'r mudiad dirwestol gan annog eraill i ymwrthod ag alcohol, a bu hefyd yn hael tuag at waith Cymdeithas y Beibl.

Ym 1838 fe aeth i'r de ar daith gasglu, gan geisio codi arian i leihau dyled ye eglwys yng Nghaernarfon, ac yno bu farw, yn nhŷ Daniel Davies yn Abertawe, ar 19 Gorffennaf. Fe'i claddwyd wrth ochr capel Bethesda yn y dref honno.